

Cwmni

Papur Sir Caerffili: Cwm Aber, Ebwy, Rhymni a Sirhywi

Rhifyn 210

Pris 80c

Mis Mawrth 2019



Rhan o 'Brosiect Creadigol' Ysgol y Castell
Ewch i'r dudalen gefn.

PWYLLGOR A SWYDDOGION

Cadeirydd: Robert Dutt

Ysgrifennydd Cofnodion: Ann Lewis



*Ariennir yn
rhanndol gan
Lywodraeth
Cymru*

Trysorydd: Eyron Thomas e.thomas119@btinternet.com

Golygydd: Ben Jones benamary2000@yahoo.co.uk 02920 862428 07891916046

Ysgrifennydd: Marian Fairclough faircloughmarian@gmail.com 02920 885151

Cynorthwy-ydd: Jan Penney

Dosbarthu a Golygydd Llundain: Mary Jones

Y Pwyllgor: Eirlys Thomas, Gareth W. Williams, Dilys Williams, Dafydd Islwyn, Jenni Jones-Annetts

Ieuenctid: Morgan Roberts, Swyddog Prosiect Llais,

Hysbysebu: Bethan Jones, Menter Iaith

Gweplyfr/ Facebook: Papur Bro Cwmni

Gwefan: menter.aerffili.cymru/ **Cwmni** 

e-bost: [Golygydd@papurcwmni.cymru/](mailto:Golygydd@papurcwmni.cymru) benamary2000@yahoo.co.uk

Cedwir yr hawl i gwtogi neu newid erthyglau neu luniau yn unol â gofynion golygyddol.

Argraffu Tower Print, Uned 12a, Ystâd Ddiwydiannol Tŷ Bedwas, Caerffili, CF83 8DW

DEDDF NEWYDD PREIFATRUYDD—DARLLENWCH

Os ydych yn darllen “Cwmni”, gall hyn olygu fod eich data personol yn cael ei ddal gennym. Fel y gwyddoch, mae deddfau diogelu data wedi newid ers mis Mai, ac felly mae gennym yn awr Rybuddion Preifatrwydd mewn lle sydd yn egluro wrthyf sut y gallwn brosesu eich data personol, fel cwsmeriaid neu gleientiaid inni, ac ar ba sail cyfreithiol yr ydym yn gallu gwneud hynny, a sut yr ydym yn cadw eich data personol yn saff.

Os hoffech dderbyn copi o'r Rhybudd Preifatrwydd, gallwch wneud hynny drwy ymweld â gwefan y papur: entercaerffili.cymru/ **Cwmni** 

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch gyda'r Golygydd. Gweler manylion cysylltu uchod.

Oedfaon Mis Mawrth Capeli Cymraeg

Bedyddwyr Tonyfelin

3ydd 10.30 a 6.00: Oedfaon Gwyl Dewi
10fed 10.30 a 6.00: Parch Milton Jenkins
17fed : Yn Bethel trwy'r dydd
24ain 10.30 a 6.00: Parchn Catrin ac Ifan Roberts

Bethel Annibynwyr, Ffordd Nantgarw

3ydd. 10.30 Gareth Hughes.
10 fed 10.30. Parch Huw Lewis
17eg 10.30. Parch Milton Jenkins 6 y.h. Ann O'Neill
24ain 10.30 a 6 y.h. Tonyfelin

Penuel, Rhymni

3ydd Mr G. Leyshon
10fed Parch Evan Morgan
17eg Rev. M. Marsden
24ain Parch T. Jones
31ain Mr G. Dafydd

Capel y Groeswen

17eg o Fawrth
3:00 o'r gloch
Parch Denzil John

“Jewell yn olynu Perl”

Ein llongyfarchiadau calonogol i un o ferched ardal “Cwmni” sydd wedi dod yn Aelod Cynulliad dros ranbarth De-ddwyrain Cymru.

Ddydd Gwener yr 8fed o Chwefror oedd y diwrnod y gwnaeth Delyth Jewell dyngu llw er mwyn cymryd ei sedd yn ein Cynulliad Cenedlaethol. Y tristwch, wrth gwrs, oedd bod galw am aelod newydd i’n rhanbarth yn dilyn marwolaeth anhymig Steffan Lewis.

Ond gwnaeth arweinydd y Blaid, Adam Price, y sefyllfa’n gwbl glir yn ystod ei anerchiad yn angladd Steffan. Cyhoeddodd yn ddi-flewyn-ar-dafod ein bod wedi colli perl ond fod yna “jewell” gyda ni i’w olynu!

Yn adlais i hyn dyfynodd Delyth ymateb Lyndon B. Johnson a ddaeth yn Arlywydd America, yntau’n etifeddu swydd yn sgîl trychineb arall, yn annerch Cyngres UDA gyda’r geiriau nobl: “*All I have, I would have given gladly not to be standing here today.*”

Yna aeth Adam ymlaen i gyfarch ei gyd-aelod gan ddweud, “Bydd Delyth yn ased i grŵp Plaid Cymru a’r cabinet cysgodol yn ein Senedd. Bydd ystod eang sgiliau Delyth yn ei gwneud yn Aelod Cynulliad eithriadol – nid yn unig ar gyfer De-ddwyrain Cymru ond ar gyfer Cymru gyfan.”

Ac mae sail gadarn i optimistiaeth arweinydd y Blaid Genedlaethol oherwydd mae Delyth eisoes wedi mwynhau gyrfa ddisglair. Wedi mynd o Ysgol Bro Allta, Ystrad Mynach i Ysgol Gyfun Cwm Rhymni, fel ei chwaer Rhianedd, aeth ymlaen i Brifysgol Rhydychen, lle graddiodd â BA mewn Iaith a Llenyddiaeth Saesneg, cyn mynd ymlaen i astudio am radd Meistr mewn Astudiaethau Celtaidd. Yn 2007, hi oedd llywydd Cymdeithas Dafydd ap Gwilym y brifysgol.

Nid oes galw am is-etholiad yn dilyn marwolaeth A.C. rhanbarthol ond, yn hytrach, cynigir y swydd i’r nesaf ar restr y blaid a gollodd aelod. Bu cryn anghytuno o fewn sawl plaid ynglyn â’r polisi o osod gwryw a benyw bob yn ail, oherwydd y perygl y gallai hyn olygu nad yr ymgeisydd gorau a etholwyd bob tro. Yn achos Delyth, wrth gwrs, ni ellid fod wedi dod o hyd i unrhyw un â gwell cymwysterau.

Oherwydd treuliodd Delyth bum mlynedd a hanner yn ymchwilydd ac awdur areithiau i Aelodau Seneddol y Blaid. Enillodd ddwy wobwr, y naill pan ddyfarnwyd mai hi oedd y gorau yng nghategori’r ymchwilwyr gorau trawsbleidiol. Yna, yn well fyth oedd y llall, sef mai hi a ddyfarnwyd yn gyflawn enillydd dros bob enillydd ym mhob un o’r categorïau.



Hefyd, cymerodd ran wrth lywio cyfreithiau newydd yn erbyn stelcian yn 2012 a thrais yn y cartref yn 2015. Mae hefyd wedi gweithio i “Citizens Advice” a Dŵr Cymru. Gydag “Action Aid” gweithiodd ar faterion yn ymwneud â hawliau menywod a datblygiadau rhyngwladol. Ddau diwrnod cyn cymryd ei sedd yn y Cynulliad ysgrifennodd erthygl i’r “Independent”, lle amlygodd gamdrin a *harassment* gwleidyddion benywaidd. Ac ar y 12fed o Chwefror ymddangosodd erthygl o’i heiddo yn y *Western Mail* yn ategu ei bwriad o barhau â gwaith Steffan.

Ganed Delyth yn Ysbyty’r Glowyr Caerffili ac mae’n aelod o deulu sy’n adnabyddus iawn yn y cwm. Bu ei mam Sian yn athrawes ffidil a’i thad Anthony’n ymgynghorydd cyfreithiol. Bydd ein darllenwyr hefyd yn cofio, â hoffter, ei rhieni-cu ochr ei mam. Bu ei thad-cu, Keri Edwards, yn brifathro Ysgol Gyfun Heolddu ac yn Fedyddiwr blaengar. Ei mam-gu oedd Kitty Edwards, cyn-ddirprwy bennaeth Ysgol Gilfach Fargod a oedd yn adnabyddus fel cyfeilydd Côr Nelson.

Wrth dderbyn ei dyrchafiad dywedodd, “Mae’n ffrainth aruthrol i fi gael olynu Steffan Lewis fel Aelod Cynulliad Cymru dros Dde-ddwyrain Cymru. Bydd popeth y bydda i’n ei wneud yn y rôl er anrhydeddu cof Steffan ac i wasanaethu’r bobol y bu e’n eu cynrychioli mor dda.”


Y Diweddaraf o'r Wasg

Fe gofiwch i "Cwmni" drafod datblygiadau posib yn ardal Basn Caerffili.

Yn yr erthygl am wasanaeth rheilffyrdd yn rhifyn mis Rhagfyr soniwyd am y posibilïadau yr oedd safle'r hen domen lo yn Llanbradach yn cynnig ar gyfer Parcio a Theithio.

Wele, isod, ddatganiad diweddaraf y cyngor ar y mater hwn a hefyd am fysiau trydan.

Gwaith ymarferol i ddatblygu cyfleuster parcio a theithio newydd yn Llanbradach.



Hen waith glo Llanbradach lle bwriedir lleoli gorsaf reilffordd y pentref

Mae'r cynllun hwn yn cynnig cyfleuster parcio a theithio strategol newydd, a fyddai'n cynnwys hyd at 500 o leodd parcio, er bod datblygiad mor fawr wedi ennyn gwrthwynebiad gan drigolion y pentref.

Mae'r cynghorwyr lleol Colin Mann a Rob Gough yn synnu bod y cynnig ddwywaith y nifer a gynigwyd yn wreiddiol.

Wrth gwrs, byddai hwn yn rhan o gyflwyno gwasanaeth rheilffyrdd ehangach ac amlach o dan Drafndiaeth i Gymru. Byddai'r cynllun arfaethedig hefyd yn gweld arhosfa reilffordd newydd wedi'i hadeiladu, gyda thir gweddilliol yn gallu rhoi lle i dwf cyflogaeth.

Byddai manteision y cynllun yn cynnwys annog lefelau uwch o ddefnydd o gludiant cyhoeddus, gan leihau'r defnydd o geir ar rwydweithiau priffyrdd tagedig ynghyd â chreu cyfleoedd cyflogaeth trwy wella cysylltedd â dalgylch mwy.

Mae'r cynnig yn gofyn am £150,000 fel arian cyfatebol ar gyfer Cynnig Cludiant Rhanbarthol am adnoddau i ymgymryd â gwaith dichonoldeb a dylunio pellach ar y prosiect hwn yn 2019/2020.

Yn yr un modd, soniwyd am ddatblygu gwesty moethus yn Lôn y Parc. Dyma'r datblygiadau:

Datblygiad Gwesty Lôn y Parc

Mae'r cynllun hwn wedi'i anelu at ysgogi'r economi ymwelwyr yng Nghaerffili, gyda chynlluniau eisoes ar waith i ddatblygu gwesty 4 seren, 70 a mwy o ystafelloedd gwely o ansawdd ar dir sy'n eiddo i'r cyngor yn Lôn y Parc yng Nghaerffili a fyddai'n ategu'r hyn sy'n cael ei gynnig i ymwelwyr presennol i'r dref.

Yn ddiweddar, mae Cadw wedi cynhyrchu prif gynllun y maent yn gobeithio ei weithredu dros y pum mlynedd nesaf, a fyddai'n gobeithio dyblu nifer yr ymwelwyr i gastell Caerffili, gan ei droi'n gyrchfan 'Haen Un'. Mae datblygwr dewisol ar gyfer y gwesty wedi'i sicrhau, gyda diddordeb gan grŵp Accor Hotel mewn cymryd y safle. Mae tîm Llywodraeth Cymru, Croeso Cymru, hefyd wedi nodi eu bod yn barod i gefnogi'r cynllun yn ariannol i sicrhau bod adeilad a gweithredwr gwesty mawreddog wedi'u sicrhau. Mae cyfle wedi codi i brynu 25 Heol Caerdydd sy'n wag ar hyn o bryd, ac a fyddai'n cynnig gweledd a phresenoldeb llawer gwell i safle'r gwesty yng nghanol y dref.



Rhif 25 Heol Caerdydd sy'n debyg o gael ei ddymchwel i roi mynediad tuag at y gwesty newydd

Mae'r cais yn gofyn am £40,000 i'w ddefnyddio fel arian cyfatebol i sicrhau grant Targed Buddsoddiad Adfywio i ganiatáu i'r cyngor brynu'r adeilad. Yna byddai'n fwriad i'r datblygwr ddymchwel yr adeilad wrth ddechrau adeiladu'r gwesty.

Cofiwch mai yn "Cwmni" ddarlennoch chi am y cynigion hyn gyntaf!!!!

Bysiau Trydan i Dref Caerffili

Dywedodd James Fussell, ar ran ei gyd-gyngorwyr yn nhref Caerffili, eu bod yn croesawu'r cynlluniau gan lywodraeth y Deyrnas Gyfunol i gefnogi cyflwyno bysiau trydan yng Nghaerffili:

“Mae'r cadarnhad gan lywodraeth y DG y byddant yn ariannu Stagecoach i'w galluogi i weddnewid eu gwaith yng Nghaerffili gydag 16 bws un llawr yn hwb rhyfeddol i'r economi leol. Bydd hyn hefyd yn dda er lles ac iechyd trigolion ein tref.



Dyma un o'r bysiau trydan a dreialwyd o gwmpas tref Caerffili

“Allyriadau (*emissions*) bysiau, lorïau a'r rheilffyrdd yw rhan o'r rheswm pam mae gan Gaerffili nifer o broblemau ansawdd yr awyr, er fod y broblem wedi lleihau dros gyfnod. Gobeithiwn y caiff y newid hwn yn 2020 effaith sylweddol.

“Efallai ein bod yn gweld ystyriaethau cydlynol o'r diwedd. Os cefnogir y buddsoddiad hwn hefyd gan Lywodraeth Cymru ac os caiff ei ariannu gan y Rhanbarth Ddinesig, i weddnewid cyfnewidfeydd rheilffyrdd/bysiau, fe welir cynnydd mawr yng Nghaerffili ac fe ddaw yn darged i fuddsoddiadau ar gyfer mentrau eraill.

Deiseb Rheilffyrdd

Allwch chi gymryd munud neu ddwy i gymryd rhan yn y frwydr am reilffyrdd hygyrch. Mae angen staffio ein gorsafoedd. Hefyd mae galw am giard ar bob un trên.

Mae'r Swyddfa dros Heolydd a Rheilffyrdd (ORR) yn gyfrifol am warchod a gwella hygyrchedd rheilffyrdd. Mae'n ymgynghori ar yr hyn y dylid ei gynnwys yng nghanllawiau'r dyfodol ar “Bolisi Gwarchod Pobol Anabl” y mae galw ar i bob cwmni trenau ei gynnal.

Wnewch chi helpu i wella mynediad drwy sicrhau fod yr ORR yn gwarantu giardiau ar bob un trên a bod staff llawn ym mhob gorsaf. Cliciwch ar y linc isod er mwyn ymateb. Cymer hyn ond ychydig funudau.

<https://www.rmt.org.uk/.../disabled-peoples-protection-policy>

Byddwn yn datgelu mwy o'r cynlluniau sydd mewn llaw ar gyfer Caerffili yn ein rhifyn nesaf.



**Cymdeithas
Edward Llwyd**

16/3/2019 Cronfa Ddŵr Llandegfedd

Cylchdaith tua 7 milltir yn crwydro o amgylch y gronfa ddŵr. Gall fod yn wlyb a mwdlyd mewn rhannau. Dewch a'ch ysbienddrychau! Man Cyfarfod: Maes parcio uwchben y ganolfan ymwelwyr. Grid ref **ST328984**

Gwybodaeth llawn www.cymdeithasedwardllwyd.cymru/gweithgareddau-de
Gobeithio bydd hyn o ddiddordeb i chi

Diolch

Rob Evans – Aelod Pwyllgor Gwaith Cymdeithas Edward Llwyd

Taith i Seland Newydd

Ar ôl siwrne o saith awr ar hugain, rhyddhad oedd cyrraedd maes awyr Blenheim ar ochr ogledd-ddwyreiniol ynys y de Seland Newydd, a phleser mwy fyth oedd cael panad o de ac ymlacio. Mae Blenheim yn rhan o ardal Marlborough sydd yn llawn gwinllan-noedd ac roedd cael cinio dydd Sul a gwydraid neu ddau yng ngwinllan Brancott yn brofiad go arbennig i gychwyn y daith oedd o'n blaenau.

Roeddem wedi penderfynu teithio yn wrthglocwedd o gwmpas yr ynys, gan ddechrau yn nhref Nelson ac oddi yno ymweld â pharc cenedlaethol Abel Tasman. Rhyw deimlad o fod yn ôl ym Mhrydain yn y 50au oedd i'w gael wrth ymweld â threfi yn yr ardal.

Wedi ychydig o ddyddiau, rhaid oedd ei throi hi tua'r de a dyma pryd daeth maint y wlad hon yn amlwg. Cawsom gyfle i ymweld ag ychydig o drefi ar hyd y ffordd ac roedd golygfeydd ar hyd yr arfordir gorllewinol yn drawiadol iawn a môr Tasman yn eithriadol o las ond yn hynod o wyllt. Delfrydol os oeddech am syrffio!!

Cyrraedd pentref Franz Joseff ar nos Sul ac yna cychwyn i fyni yn gynnar fore Llun tuag at y rhewlif. Taith o ryw awr ar droed. Yn anffodus mae'r rhewlif yn lleihau bob blwyddyn oherwydd newidiadau yn yr hinsawdd.

Oddi yno rhaid oedd troi i mewn o'r arfordir ac anelu at Queenstown. Dyma dref fywiog a phrysur sy'n boblogaidd iawn hefo pobl ifanc sy'n teithio'r byd. Yna ymlaen tua'r de i Te Anau er mwyn ymweld â Milford Sound. Aros dros nos ar y ffordd mewn hen sied ddefaid anghysbell iawn ond diddorol! O Te Anau aethom ar drip diwrnod i Milford Sound a thrip mewn cwch allan at y môr agored. Mae'r lle yma wedi ei enwi ar ôl Aberdaugleddau ac mae yna afon Cleddau gerllaw. Ar ôl tridiau yn Te Anau dyma ei throi hi yn

ôl tuag at Christchurch. Roedd golygfeydd bendigedig ar y ffordd nid yn annhebyg i Eryri ond ar raddfa llawer mwy.

Mi ddioddefodd Christchurch ddaeargryn yn 2010. Mae'r creithiau yn amlwg iawn ac maen nhw'n dal i atgyweirio ac ail-adeiladu. Un o'r llefydd fydd yn aros yn y cof ydy'r eglwys gadeiriol newydd sydd wedi ei hadeiladu o gardfwrdd. Gyferbyn â'r adeilad mae llecyn o laswellt ac, wedi eu gosod arno mewn rhesi perffaith, hen gadeiriau o bob math a phob un wedi ei pheintio yn wyn. Un gadair am bob bywyd a gollwyd ac ynghanol y rhes flaen roedd cadair babi i goffau'r bychan a laddwyd.

Ymlaen ar hyd arfordir ddwyreiniol yr ynys tuag at Kaikoura, tref sy'n enwog am ei bwyd môr a thripiâu i weld morfilod. Dioddefodd y dref hon ddaeargryn yn 2016 ac mae'r difrod yma eto yn amlwg. Er hynny, roedd y dref fach hyfryd hon wedi ail-gydio yn yr awenau a bywyd yn dechrau byrlymu yno unwaith eto. Profiad diddorol oedd yr arddangosfa yn cynnwys llawer o luniau cyn ac ar ôl, ynghyd ag atgofion llygad-dystion am y ddaeargryn. O Kaikoura ymlaen â ni yn ôl i Blenheim i ffarfelio â pherthnasau. Newydd agor oedd ffordd yr arfordir. Roedd llawer iawn o waith atgyweirio ac adeiladu'r ffordd a'r rheilffordd yn mynd rhagddo a chryn dipyn o waith ar ôl i'w wneud. Heb y ffordd yma byddai'r daith i Blenheim, a gymerodd ddwy awr i ni, yn agosach at wyth, felly roeddem yn lwcus ei bod wedi ail-agor. O Blenheim, gyrru i Picton i ddal y fferi i Wellington ar ynys y Gogledd. Ond stori arall ydy honno...

Anwen Hill



Cofeb i ddaeargryn 2010 yn Christchurch

Stori Bedwellty – Yr Ail Ran

Roedd Senen yn gyfrifol am anfon cenhadon o Iwerddon i Gymru. Dywedir iddo gael ei eni yn Corkobaskin, Swydd Clare, yn y flwyddyn 546. Honnai ei fod o dras brenhinol a'i fod o linach brenhinoedd Connemara. O'i blentyndod cynnar roedd yn enwog am ei dduwioldeb ac fe gafodd ei anfon at yr Abad Cassidan i'w hyfforddi i fod yn fynach.

Teithiodd i Rufain a hefyd i Tours nifer o weithiau ac fe'i gwnaed yn Esgob Iniscathy yn Iwerddon. Roedd ganddo reolau caeth a golygai hyn nad oedd yn boblogaidd ymysg y mynachod. Er hyn, roedd yn adnabyddus ac yn boblogaidd ymysg y werin. Oherwydd ei fod yn onest a chyfiawn ac yn anhunanol, cafodd, wedi iddo farw, ei ganoneiddio gan y Pab Gregory.

Mae dwy chwedl yn gysylltiedig â Sant Sannan (neu Senen). Dywed un stori iddo ymweld â Bedwellty yng nghwmni Dewi Sant a'i fod yn bwriadu pregethu. Mae'r stori arall yn ymwneud â'i blentyndod. Roedd ei deulu ar



Ffynnon Sant Sannan

fin symud tŷ ond ni allai ei fam dorri ar draws ei ddefosiynau. Ceisiodd wneud sawl gwaith ond bu'n aflwyddiannus bob tro. Cyn gynted ag y cododd oddi ar ei liniau, hedfanodd y llestri a'r sosbeni allan o'r tŷ a chyrraedd eu cartref newydd, lle daethant o hyd i'w priod le ar y silffoedd heb unrhyw gymorth gan fod dynol.

Bu eglwys ym Medwellty ers mwy na 700 mlynedd ac mae'n debyg bod y gangell yn

rhan o'r adeilad gwreiddiol neu o leia wedi'i hadeiladu ar sylfeini'r hen eglwys a oedd ei hun, yn ôl y sôn, wedi'i hadeiladu ar safle hen eglwys Geltaidd. Mae tŵr yr eglwys yn sgwâr ac yn fyrdew gyda tho cyfochrog deublyg.

Mae'r pileri hir, enfawr sy'n gwahanu corff yr eglwys ac eil y gogledd yn nodwedd hynod ohoni. Felly hefyd fwa dwbl y gangell. Y darn mwyaf diweddar o'r adeilad yw'r festri a gafodd ei hychwanegu mor ddiweddar â 1910. Mae'r eglwys wedi'i hadeiladu o garreg a geir yn lleol ac mae'n ymdoddi i'r tirwedd. Mae'n rhaid ei bod yn olygfa drawiadol iawn ar un adeg ac y gellid ei gweld filltiroedd i ffwrdd.

Dywedodd yr Archddiacon Coxe yn 1801:

Adeilad gothig eitha hynafol yw'r eglwys ym Medwellty. Mae'r tŵr murfylchog wedi'i adeiladu o rwbel brown ac wedi'i orchuddio â charreg wedi'i naddu. Mae'r murfylchau a'r corff wedi'u gwyngalchu.

Y gist i gadw'r urddwisgoedd, mae'n debyg, yw'r crair olaf o ddodrefn gwreiddiol yr eglwys. Mae'r gist gerfiedig hon, sydd efallai'n dyddio o 1450, tua thair troedfedd o uchder, pedair troedfedd o hyd a throedfedd a hanner mewn dyfnder. Ni wyddom oed y fedyddfan ond awgryma ei chynllun ei bod yn deillio o'r cyfnod Normanaidd. Mae'n edrych yn debycach i bedestal na bedyddfan. Mae hi tua thair troedfedd o uchder ac mae'r bowlen a'r basn â chaead pren. Cyn i'r chwe chloch gael eu gosod yno yn 1895 ac i ddwy arall gael eu hychwanegu atynt ym 1920 roedd yno gloch a elwid yn *Waterloo Bell*. Cafodd hon ei chastio yn 1815 a'i symud yn ddiweddarach i eglwys yng Nghaerdydd.

Mae'n bosib bod ffenestri addurniedig yn yr eglwys rai canrifoedd yn ôl ond buasai'r rhain wedi cael eu symud oddi yno gan gefnogwyr Oliver Cromwell a oedd mewn grym yng nghanol y 17eg ganrif.

Mae'r ffenestri presennol, er yn gymharol ddiweddar, yn gweddu i wneuthuriad yr eglwys. Maent yn dangos y seintiau Celtaidd Dewi, Senen, Cadog, Gwynllyw a Gwladys, ac mae un ffenest ddiddorol sy'n dangos milwr yn marw. Cafodd y ffenest hon ei gosod yno er cof am lawfeddyg lleol a laddwyd yn y Rhyfel Mawr. Fe'i rhoddwyd gan ei gyfeillion.

Mae'r brif fynedfa i'r fynwent trwy borth y fynwent y tybir ei fod dros 200 oed. Wrth ochr y porth hwn mae camfa. Tybed pam oedd angen adeiladu camfa mor agos at y porth? A oedd pobl yn ystyried ar un adeg mai doeth oedd cadw'r porth ar gau er mwyn cadw'r defaid allan?

Mae llawer o hen feddfeini yn y fynwent gydag arysgrifau yn Gymraeg ac yn Saesneg. Ar un ohonynt mae'r geiriau:

*Remember friends in passing by
As you are now so once was I
As I am now so you must be
Therefore prepare to follow me.*

Mae beddfaen arall â'r arysgrif:
*Catherine Dillon, died January 11 1859
Aged 110 years*

Mae'n rhyfeddol i rywun gyrraedd yr oedran hwnnw hyd yn oed yn ein dyddiau ni.

Clive Williams

Cymreictod a Hanes -1 *Dr Elin Jones*

Dyma ni ym mis Mawrth, mis o ddathlu ein nawddsant mewn cyngerdd a chinio, ac o wisgo cenhinen yn ein capiau (neu ar ein siacedi, beth bynnag) yn ogystal ag yn ein calonnau. Wrth gofio am fywyd a gwaith y dyn hanner-chwedlonol hwnnw a fu farw dros fil o flynyddoedd yn ôl, byddwn hefyd yn dathlu ein Cymreictod.

Ond beth yw'r Cymreictod hwnnw? Am ganrifoedd byddai'r Cymry wedi ei gysylltu â'u ffydd Cristnogol, ond rydym yn byw mewn oes seciwlar iawn heddiw. Efallai bod llawer ohonom yn medru dilyn anogaeth Dewi Sant i fod yn llawen ac i wneud y pethau bychain, ond cadw'r ffydd? Mater arall yw hynny erbyn heddiw.

Ai mater yw o wisgoedd a phlanhigion arwyddocaol? Dyma allanolion ein Cymreictod, bid sicr. Bydd ein hysgolion – fel ffenest siop Ashburne's yma yn Ystrad Mynach – yn llawn crysau rygbi a chapiau fflat, hetiau uchel a fersiynau ar fetgwn. Bydd llwyfannau'n cyngherddau wedi eu haddurno gyda lluoedd o gennin Pedr. Nid cennin *Dewi*, gyda llaw – blodyn bach gwyn di-sôn-amdano yw blodyn Dewi, sydd i'w weld ar dir pori rhwng Mai a Gorffennaf.

Neu ai mater o fwyd a lluniaeth a cherddoriaeth yw Cymreictod - yfed cawl cennin a bwyta pice ar y maen neu fara brith i gyfeiliant côr meibion? Mae corau meibion yn rhan o ddiwylliant traddodiadol ardaloedd ôl-ddiwydiannol eraill ym Mhrydain. Wrth gwrs, mae gwranddo ar y delyn yn opsiwn yma hefyd – ond daeth y delyn deires o'r Eidal draw i Gymru, cofiwch. Ac o ran bwyd a lluniaeth: tebyg iawn yw ein cawl ni i fwyd gwerin dlawd y gwledydd Celtaidd eraill y Mhrydain. Mae mwy o gennin ynddo na sydd yn 'Irish stew' neu 'Scotch broth' ond yr un ydynt yn eu hanfod - ac mae hanes lobsaws yn perthyn yn agosach i Lychlyn nag i Gymru!

Felly ai'r iaith, a phopeth sy'n perthyn iddi, megis barddoniaeth, cynganedd, cerdd dant ac eisteddfod yw prif nodwedd Cymreictod? Mae'n rhan bwysig o'n hunaniaeth, heb os – ond beth am y Cymry pybyr hynny sydd heb air o Gymraeg? Ydyn ni am gau drysau Cymreictod arnyn nhw?

Wel, nag ydyn, wrth gwrs. Rhieni di-Gymraeg yw asgwrn cefn ein hysgolion Cymraeg yma yn y de-ddwyrain, ac mae llwyddiant yr ysgolion hynny i'w briodoli i awydd rhieni di-Gymraeg i agor drysau Cymreictod i'w plant. Ymroddiad rhieni ac athrawon, a pharodrwydd dysgwyr a thiwtoriadaid i droi allan gyda'r nos i ymladd gyda gramadeg a threigladau, sy'n gyfrifol am y cynnydd a fu yn nifer siaradwyr y Gymraeg yn ein cwm ni dros y degawdau diwethaf.

Ond beth yw'r ymdeimlad o Gymreictod sydd yn gyfrifol am yr ymroddiad hwn? Go brin ei fod i'w briodoli i awydd i chwifio baner y ddraig goch, gwranddo ar gerddoriaeth, gwisgo darn o blanhigyn neu fwyta bwyd gwerinol. Dyma allanolion Cymreictod – arwyddion ein gwlad a rhan annatod o'n dathliadau. Ond dengys hanes mor ansicr yw perthynas yr allanolion hyn â Chymru. Beth yw ysbryd ein dathliadau? Dyna rywbeth i chi gnoi cil drosto ym mis ein nawddsant. Ceisiaf gynnig ateb – hanesyddol wrth gwrs – yn y rhifyn nesaf.



Chwilio am Neuadd?

Beth am Bethel, Caerffili?

Yn gynnes

Digon o le parcio

Ar gael yn ystod y dydd a'r hwyr

Yn agos i ganol y dref

£8 yr awr gan gynnwys gwres

Cysylltwch: Allan Cook 02920843176


Ydych chi'n gallu dod o hyd i'r DEG gwahaniaeth rhwng y ddau lun?



Ydych chi'n gallu dod o hyd i'r 10 gair yma yn y rhwyll isod.

DRAMA CANU BARDDONIAETH PEINTIO DAWNSIO CENHINEN
LLEFARU CENNIN PEDR DEWI SANT MAWRTH

Wedyn dadgymysgwch y geiriau sydd yn y cawl cennin



Clecs y Castell



Siarter Iaith

Ers Hydref 2017, mae Ysgol y Castell wedi bod yn gweithio'n galed iawn i ennill gwobr arian y Siarter Iaith. Penodwyd pwyllgor o blant o dan yr enw 'Dreigiau'r Castell', ac mae yna gynrychiolaeth o bob dosbarth, o'r Derbyn hyd at flwyddyn 6. Maent wedi bod yn weithgar tu hwnt ers y cychwyn yn trafod syniadau newydd, er mwyn hyrwyddo Cymreictod ar draws yr ysgol ac yn eu bywydau personol tu allan i furiau'r ysgol.

Yn dilyn holiadur ysgol gyfan, cawsom 4 targed i weithio tuag atynt:

Gwrando ar gerddoriaeth Gymraeg.
Gwyllo teledu Cymraeg.
Defnyddio apiau Cymraeg.
Siarad Cymraeg y tu allan i'r ysgol.

Trefnwyd sawl digwyddiad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gan Ddreigiau'r Castell i hyrwyddo'r Siarter fel rhan o fywyd dyddiol yr ysgol. Ar ddiwrnod 'Shwmae Su'mae' eleni, gofynnwyd i bob plentyn yn yr ysgol i wisgo i fyny fel arwr o Gymru, gan ddysgu ffeithiau am y person nodweddiadol hwnnw. Cafwyd disgo Gymraeg, a sinema Gymraeg, ac fe roddwyd cyfle i'r plant i fwynhau bandiau Cymraeg cyfredol gyda'u ffrindiau.

Hefyd, cynhaliwyd ein 'Caffi Clonc' cyntaf, lle'r oedd yna wahoddiad i'n rhieni sydd efallai yn llai hyderus wrth siarad yr iaith. Pwysleisiwyd bod yna groeso i bawb fel rhieni, ond bod yna groeso pwysig i'r rhieni yna sydd yn dysgu, neu efallai sydd wedi colli'r hyder i siarad yr iaith bellach. Cafwyd perfformiad gan gôr yr ysgol, ac fe aeth ein disgyblion i gymysgu gyda'r rhieni, a chynnal sgysiau digon anffurfiol. Roedd yna awyrgylch bendigedig yn y neuadd, ac roedd y diwrnod yn ei gyfanrwydd yn llwyddiant ysgubol!

Rhai gweithgareddau eraill gyfrannodd tuag at ein llwyddiant o ennill y wobr arian oedd ein cystadleuaeth 'Cymry Campus' wythnosol sydd bellach yn rhan annatod o'r wythnos yn Ysgol y Castell. Mae hyn yn ffordd o weld sut mae pob plentyn yn cymryd cyfrifoldeb i geisio taro'r 4 targed, ac mae un dosbarth o'r Adran Iau ac un o'r Cyfnod Sylfaen yn ennill yn wythnosol. Mae'n gystadleuaeth gyffrous iawn, ac mae'r canlyniadau yn cael eu cyhoeddi mewn gwasanaeth ar brynhawn dydd Gwener. Mae sawl esiampl arall o'r hyn gyfrannodd at ein llwyddiant wrth ennill y wobr arian, a gallwch weld hyn ar Trydar o dan yr hashnod 'sicastell' er mwyn gweld yr holl waith sydd wedi cael ei wneud gan blant, athrawon a rhieni Ysgol y Castell i gyrraedd y wobr. Mae'r gwaith tîm wedi bod ar ei orau, ac mae amser cyffrous iawn o'n blaenau wrth anelu am y wobr aur.

Y project creadigol!

Dros y misoedd diwethaf bu grŵp o blant Blwyddyn 4 ynghlwm â phrosiect creadigol cyffrous! Ar ôl cyfweld â sawl ymgeisydd diddorol penododd y plant Aled Richards a Sioned Birchall. Ffocws y ddau tra'n gweithio gyda'r plant oedd yr ardal leol.

Bu Aled yn edrych ar nodweddion barddoniaeth gyda'r plant ac yn cyfansoddi darnau cyffrous o gerddi am Gaerffili. Defnyddiodd Sioned ei harbenigedd mewn ffotograffiaeth wrth weithio gyda'r plant. Dros y misoedd diwethaf maent wedi dysgu sut i dynnu lluniau effeithiol gyda phob math o gamerâu gan gynnwys camerâu proffesiynol. Bu'r ymweliadiad â'r arddangosfa yn yr oriel gelf yn Amgueddfa Caerdydd yn sbardun amlwg, ac fe benderfynwyd efelychu sawl agwedd a welwyd.

Mae pob plentyn yn y prosiect wedi cael y cyfle i dynnu llun o'r 'ardal leol'. Mi lansiwyd yr arddangosfa yn Neuadd Glyndŵr yn Ysgol y Castell ar ddiwedd y mis ac roedd y plant yn gyffrous iawn i arddangos eu gwaith ynghyd â pherfformio eu barddoniaeth. Wrth i'r prosiect ddod i derfyn mae'r plant yn awyddus i drosglwyddo'r sgiliau maent wedi meithrin trwy addysgu gweddill plant Blwyddyn 4 yn ogystal â staff yr ysgol! Mae nifer o ffotograffwyr y dyfodol yma rwy'n siŵr!



Newyddion Côr Cwm Ni

Gyda'r flwyddyn newydd daw pennod newydd yn hanes Côr Cwm Ni. Ar ôl 12 o flynyddoedd, fe benderfynodd Carys Crimmings roi'r gorau i arwain y côr. Ar ran yr holl aelodau dros y blynyddoedd, carwn ddiolch i Carys am ei hymroddiad a'i gwaith di-flino wrth arwain y côr drwy nifer o gy-



stadlaethau llwyddiannus, a nifer o deithiau a chyngherddau cofiadwy. Ond wrth ffarwelio ag un arweinydd, dyma gyfle i ddarllenwyr y papur bro ddeall fod gan y côr arweinydd newydd.

Un o Benparc, Aberteifi yw Rhys

Griffiths yn wreiddiol, ond mae bellach wedi ymgartrefu yma yng Nghaerffili. Bu'n ddisgybl yn Ysgol Gynradd Penparc ac Ysgol Gyfun Dyffryn Teifi cyn mynd ymlaen i astudio Cymraeg a Cherddoriaeth ym Mhrifysgol Caerdydd. Wedi cwblhau cwrs ymarfer dysgu, bu Rhys yn athro Cymraeg a Cherddoriaeth yn Ysgol Gyfun Cwm Rhymni cyn penderfynu newid cyfeiriad, i fyd y cyfryngau, ac mae bellach yn gweithio gyda BBC Radio Cymru fel Trefnydd Amserlennu. Efallai y clywch chi Rhys o dro i dro yn cyflwyno bwletinau'r tywydd a thraffig!

Un o brif ddiddordebau Rhys ydy canu corawl a'r diddordeb wedi dechrau'n ifanc iawn wedi ymuno âg Ysgol Gerdd Ceredigion dan arweiniad Islwyn Evans. Yna, tra yn yr ysgol uwchradd bu'n aelod o gôr Ieuenctid y Tair Sir a Chôr Cenedlaethol Ieuenctid Cymru. Islwyn wnaeth roi'r hwb i Rhys i ddechrau arwain, drwy roi cyfle iddo arwain rhai o gorau'r ysgol yn Eisteddfod yr Urdd. Ar ôl symud i'r Brifysgol ac ymuno ag Aelwyd y Waunddyfal, bu Rhys wedyn yn arwain Côr Merched Waunddyfal am gyfnod. Yna, o'r merched at y meibion, bu Rhys yn arweinydd Bechgyn Bro Taf rhwng 2013 a 2018 gyda'r côr yn ennill categori y Corau Meibion yng nghystadleuaeth Côr Cymru yn 2015. Ynghyd ag arwain corau, mae Rhys dal yn wneud ei orau i barhau i ganu mewn nifer o gorau sy'n cynnwys Cywair, Côrddydd, COR a Cantorion John S Davies.

Wedi ymgartrefu yng Nghaerffili bellach, rydym yn ymfalchïo yn y ffaith i Rhys dderbyn gwahoddiad y côr i ddod i ymuno gyda ni fel ein harweinydd newydd ers mis Ionawr.

Felly estynnwn wahoddiad agored i unrhyw aelod newydd i ymuno a Côr Cwm Ni sydd yn ymarfer bob nos Fawrth yng nghapel Bryn Seion yn Ystrad Mynach am 7pm. Mae'r côr yn ymarfer yn brysur ar hyn o bryd, ac yn edrych ymlaen at gymeryd rhan yng nghyngerdd codi arian 'Eisteddfod y Cymoedd' dan arweiniad Rhys ar nos Iau yr 11eg o Ebrill yn Safle'r Gwyndy yng Nghaerffili. Am fwy o fanylion, ewch draw i'r wefan newydd – www.corcwmni.cymru.

Mae Cymdeithas y Deillion Gogledd Cymru yn recordio a chynhyrchu ystod eang o Lyfrau Llafar sydd ar gael yn eich llyfrgelloedd lleol.

Y llyfrau diweddaraf ar gyfer plant a phobol ifanc a recordiwyd yw'r canlynol. Gellir eu benthyca yn rhad ac am ddim trwy gysylltu â'ch llyfrgell leol.



DOSBARTH MISS PRYDDERCH – LLYFR 2 : SILFF Y SARFF (Mererid Hopwood)

DERI DAN Y DALIWR DREIGIAU (Haf Llewelyn)

CYFRES MAES Y MES – Dwy stori gan Nia Gruffydd : BRIALLEN A BRECH Y MÊL a BRWYN-WEN A'R ADERYN ANFERTH

HUFEN AFIACH (Meilyr Siôn)

Ym mis Mawrth rydyn ni'n dathlu dydd gwyl nawddsant Cymru. Felly y mis yma, rydych chi'n cael cwis i weld faint ydych chi'n ei wybod am y sant arbennig yma.

Pob lwc! Mae'r atebion isod.

1. Beth yw enw nawddsant Cymru?
2. Ble cafodd e ei eni?
3. Beth oedd enw ei fam?
4. Beth oedd yn bod ar athro Dewi, Pawl Hen?
5. Sut gwnaeth Dewi ei helpu?
6. Ble roedd Dewi'n pregethu pan gododd y tir dan ei draed?
7. Pam roedd hi'n bwysig i hyn ddigwydd?
8. Pwy oedd y dyn cas oedd eisiau gyrru Dewi a'i fynachod i ffwrdd?
9. Beth oedd enw'r lle ble sefydlodd Dewi ei fynachlog?
10. Beth oedd geiriau olaf Dewi Sant?



nawddsant : patron saint

pregethu : to preach

dan ei draed : under his feet

sefydlodd : established

cwis : a quiz

pan gododd y tir : when the ground rose

digwydd : to happen

mynachlog : monastery

arbennig : special

mynachod : monks

geiriau olaf : last words

Atebion

Atebion Posau'r Plant



AMDAR	-	DRAMA
OPTEINI	-	PEINTIO
FEURALL	-	LLEFARU
WADSONI	-	DAWNSIO
THRAWM	-	MAWRTH
ACNU	-	CANU
WEDI	-	DEWI
HENINCEN	-	CENHINEN

Atebion Colofn y Dysgwyr

(Remember to do the little things that you have heard and seen from me)

10. Cofiwch wneuthur y pethau bychain a glywsoc'h ac a welsoch gennyf i

9. Glyn Rhosyn

8. Boia

7. Roedd pawb yn gallu gweld Dewi wedyn

6. Llanddewi Brefi

5. Rhoidd ei ddwylo dros ei lygaid ac roedd e'n gallu gweld

4. Roedd e'n ddall (blind)


3. Non

2. Ceredigion

1. Dewi

Colofn Dafydd Islwyn


Teitl cyfrol John Phillips, Llanbedr Pont Steffan, un o arloeswyr addysg drwy'r Gymraeg ydy "Agor Cloriau - Atgofion Addysgwr". Gwasg Gomer, a gyhoeddodd y llynedd. Ddiwedd pumdegau'r hen ganrif, cafodd ef a'i wraig Bethan waith fel athrawon yn Llundain. Bu ef yn dysgu Hanes yn Cornwell Boys' Secondary Modern School, East Ham a Bethan Phillips yn dysgu Lladin yn Deanery Grammar School,



West Ham. Ymhen amser fe ddychwelodd y ddau i Gymru. Derbyniodd Bethan swydd yn dysgu Saesneg yn Ysgol Ramadeg Rhymni a John swydd yn dysgu Cymraeg a Hanes yn Ysgol Ramadeg Sirol, Merthyr Tudful. Ar ôl byw am ychydig wythnosau mewn fflat digysur yn Aberdâr, fe brynodd y ddau fwthyn bach yn Rhymni am £750. Meddai'r awdur, "Mewn gwirionedd dau

dŷ teras wedi'u bwrw ynghyd oedd 1 Havard's Row a'r drws ffrynt yn arwain i'r stryd fawr. Pan fyddai loriau'n pasio fe fyddai'r tŷ yn crynu. Ond eto roedd yn glyd ac fe fuom yn hapus iawn yno."

Ceir disgrifiad byw yn y gyfrol o'i gyfnod yn byw yn Rhymni ac yn gweithio ym Merthyr Tudful. Ar y 1af o Ionawr 1963 dechreuodd ar ei swydd newydd fel Swyddog Addysg Bellach Aberdâr a Phontypridd. Ymhen amser fe benderfynwyd prynu byngalo newydd yn Llangors Road, Cwm-bach, Aberdâr. Yn y cyfamser, roedd Bethan yn feichiog. "Cafodd Bethan amser go galed wrth iddi ddisgwyl Geraint a byddwn




yn gorfod gyrru'n aml i Bontlotyn i mofyn cyw iâr a tships iddi. Mae dewis menyw feichiog o fwyd yn gallu bod yn hynod", cofnododd John Phillips.

Yn ystod blynyddoedd olaf yr wythdegau roedd sŵn ym mrig y morwydd y byddai'r Genedlaethol yn cartrefi yng Nghwm Rhymni yn 1990. Yn hunangofiant Emrys Jenkins, Caerdydd, "Yng Nghanol Pethe", a

gyhoeddwyd y llynedd, mae sôn am y gwahoddiad "i bentref Rhymni i godi brwdfrydedd am yr Eisteddfod mewn Cinio Gŵyl Ddewi".

Yn y cyfarfod hwnnw dywedodd Maer Rhymni ar y pryd ei fod wedi cael cyfle i ganu dan Syr Adrian Boulton fel aelod o'r côr plant yn Eisteddfod Genedlaethol Caerffili yn 1950. Roedd yn awyddus i'r genhedlaeth bresennol o blant Cwm Rhymni gael yr un profiad o ganu ar lwyfan y Genedlaethol! "Dydw i ddim yn credu fod ei gof yn ffeithiol gywir, ond eisteddodd i lawr i gymeradwyaeth fyddarol ac roedd fy ngwaith i'n hawdd ar ôl hynny," barnodd Emrys Jenkins. Prynaes y gyfrol yn Y Genedlaethol ym Mae Caerdydd y llynedd.



Yn yr eisteddfod honno fe draddodwyd Darlith Barn 2018 gan Dr Prys Morgan, yr hanesydd o Abertawe. Testun ei ddarlith oedd "Dau frawd a'u magwraeth yng Nghaerdydd". Ynddi roedd yn dwyn i gof y fagwrfa a gafodd ef a'i frawd Rhodri, y gwleidydd, mewn Caerdydd



gwahanol i'r un presennol. Mae'n sôn am ddylanwad ei fam arnynt. "Roedd fy mam yn athrawes Gymraeg yn Ysgol y Sir, Rhymni, yn 1929 ar adeg o ddiweithdra gant y cant a'r plant yn llwgu. Roedden nhw'n cysgu trwy'r gwersi ar wahân i un diwrnod bob wythnos wrth i barseli bwyd ddod o Eastbourne a oedd wedi mabwysiadu Rhymni." Cyhoeddwyd detholiad o'r ddarlith yn rhifyn mis Hydref y cylchgrawn Barn.


Mae dwy gyfrol arall y dylwn fod wedi eu rhestru yn y cyfrolau yn sôn am Gwm Rhymni. Mae Hywel Emrys, yr actor, yn ei hunangofiant, "Dyn Lwcus", 2016, mewn dwy bennod yn sôn am ei brofiad fel athro yng Nghaerffili ac Ystrad Mynach.

Mae prolog pennod gyntaf nofel Sian Rees, "Hafan Deg", Gwasg Carreg Gwalch 2015, wedi ei lleoli yn Nhredeggar Newydd, Hydref 1894. Teitl y bennod gyntaf yw "Cecil Jenkins 1898",

Fel Aderyn gan Manon Steffan Ros oedd ein llyfr ar gyfer cyfarfod mis Chwefror a chafwyd trafodaeth fywiog. Hon oedd nofel gyntaf yr awdur, yn rhoi hanes chwe chenhedlaeth o ferched o'r un teulu, rhwng 1882 a 2009. Daw'r teitl o'r adnod:

Gŵr yn ymdaith o'i le ei hun sydd debyg i aderyn yn cilio o'i nyth,

adnod sy'n allweddol yn hanes un genhedlaeth o'r teulu. Defnyddir adar fel delweddau trwy gydol y nofel.



Fel Aderyn Clwb Darllen Cwmni

Cytunai pawb iddynt gael blas ar arddull hyfryd yr awdur a'r ddeialog fywiog sy'n ein hatgoffa mai fel dramodydd y daeth hi'n adnabyddus gyntaf. Nid yw'r stori'n cael ei hadrodd yn nhrefn amser ac mae'r symud yn ôl ac ymlaen rhwng y cenedlaethau yn rhoi diddordeb arbennig i'r naratif; fodd bynnag nid oedd hyn yn ei gwneud yn rhwydd dilyn hanes y teulu bob tro a chyfaddefodd sawl un ohonom i ni flino braidd ar droi nôl i dudalennau blaenorol i'n hatgoffa o beth oedd wedi digwydd!

Cafodd nifer o'r grŵp flas mawr ar ddarllen Fel Aderyn ond doedd eraill ohonom ddim mor fodlon ar y llyfr. Teimlid nad oedd y stori drwyddi draw yn ddigon realistig: go brin y byddai digwyddiadau mawr fel merch yn lladd ei thad treisgar neu ferch ifanc ddiniwed yn beichiogi ar ôl cael ei swyno gan ffrind gorau ei thad yn digwydd ym mhob cenhedlaeth yn y teulu! Cytunwyd hefyd bod y cyfeiriad at yr aderyn yn digwydd yn llawer rhy aml a daethom o hyd i ambell anghysondeb yn y naratif.

Fodd bynnag, mae'r nofel yn llifo'n rhwydd a cheir cymeriadau cofiadwy fel Sybil druan a dreuliodd ei bywyd yn aros am ei chariad a hwnnw'n ŵr i rywun arall, a'r efeilliaid na ellid eu gwahanu. Hwyrach bod rhai gwendidau ond rhaid cofio mai dyma nofel gyntaf yr awdur ac mae'r ddawn ysgrifennu a roes iddi'r Fedal Ryddiaith erbyn 2018 yn ddigon amlwg.

Annwyl Gyfeillion,

Roedd eitem ar radio Cymru yn gynnwys ar fore Sadwrn wedi fy atgoffa o wersi Lladin Lefel O a mewnbwn cwrs gradd am yr elfen Ladin yn yr iaith Gymraeg. Ond doedd dim o'r profiadau hyn wedi fy swyno gymaint â chlywed fod y gair cwmni yn deillio o'r dywediad Lladin 'cum panis' sef bwyta bara (sef panis) gyda'n gilydd.

Yn syth dyma fi yn meddwl am deitl ein papur bro ac ymfalchïo mor addas oedd y teitl am gyfrwng sydd yn ein dwyn at ein gilydd yn yr ardal hon sef CWMni. Wrth feddwl ymhellach dyma wneud i mi sylweddoli mod i wedi bod yn anghywir wrth gredu mai term daearyddol oedd y gair cwm. Yn wir felly ymddengys mai ystyr y gair yw pobl gyda'i gilydd a daeth y geiriau CWM Rhymni yn felys iawn i mi fel disgrifiad o'n CYMdeithas ni yn yr ardal hon. Felly wrth gwrs holl gymoedd y De a'r agosatrwydd dwy wedi'i brofi yn CWM Rhondda, CWM Cynon a chymoedd eraill CYMr. Rhoddodd hyn i mi deimlad o falchder mod i wedi dewis yr ardal hon yn gartref a chael cyd fyw gyda thoreth o bobl agosatoch a chyfeillgar. Ydy mae y teitl CWMni yn addas iawn i'n papur bro.

Gofynnais i'n golygydd gweithgar a fyddai yn fodlon rhoi brechdan gaws Caerffili yn ein rhifyn nesaf i ddathlu'r cysylltiad rhyngom ni'r CYMry gyda'r Rhufeiniaid. Yn ddealladwy dywedodd mai bwydo geiriau ac nid bwydo bara oedd yn ei ddisgrifiad swydd!!


Yn anffodus crwydrodd fy meddwl at gyfres Pobl y CWM a sylweddoli nad yw'r straeon cyfredol yn gwireddu geiriau'r Rhufeiniaid ond mae'n siŵr y gwelwn GYModi ar rai o'r straeon hynny rywbryd gobeithio!!

Efallai ym mhob CYManfa a CHYMun o hyn ymlaen y byddwn ni a'n CYMdogion yn y CYMdogaethau hyn yn talu teyrnged i'r Rhufeiniad am gyfoethogi ein hiaith.

Yn gywir,

Eleri Betts

Merched y Wawr Cwm Rhymni



Roeddem fel cangen yn hynod o ffodus o allu croesawu'r Prifardd Cyril Jones atom yn Nhonyfelin, nos Fercher 20fed o Chwefror.

Teitl ei sgwrs oedd "Menywod fy Mhlentyndod" a chawsom orig ddifyr iawn yn ei gwmni wrth iddo hel atgofion am y menywod oedd yn byw yn ardal ei blentyndod sef pentref Pennant, nid nepell o Aberaeron yng Ngheredigion.

Dechreuodd drwy sôn am ei fam, yn ferch ddeunaw oed, yn gorfod cerdded gyda'i dad ar draws cae i'r ffarm gyfagos lle'r oedd saith nyrs yn byw, er mwyn cael cymorth dros ei enedigaeth. Roedd hyn yng ngaeaf 1947, a chofiai'n glir ei disgrifiad hi o'r tywyllwch llethol a fodolai adeg dyfodiad yr eira mawr ar y siwrne honno.

Aeth ymlaen wedyn i sôn am yr addysg unigryw gafodd yn ysgol y pentre' gan Miss Jones ysgol fach a Miss Jones ysgol fawr a fu'n ddylanwad mawr arno. Roedd eu dulliau disgyblu'n wahanol iawn i ddulliau'r oes hon, ond roedd yr addysg a gafodd yn amhrisiadwy, gyda phwyslais mawr ar hanes lleol a dysgu englynion a cherddi ar y cof.

Soniodd wedyn am Miss Margaret Jenkins, merch Dafydd Jenkins y gof oedd yn byw drws nesa'. Athrawes alluog a disglair a fu'n HMI ac a olygodd nifer o lyfrau, ond na chafodd y cyfle i sgwennu llyfrau ei hun, fel hanes llawer o ferched y cyfnod hwnnw.

Yna cawsom lu o storïau am Mari, Berllan Pitar, bwthyn ger Aberporth a oedd yn dal yn fyw iawn yn y co' gan y credid eu bod yn gallu "rheibio". Er mwyn "cadw'i chap yn gywir", fe dderbynai ffafrau ar adegau pan oedd yr hufen yn gwrthod troi'n fenyn, dyweder, neu'r hwch yn gwrthod symud o'r domen.

Fe gafwyd gan Cyril ficrocosm o hanes merched yng Nghymru na chyrhaeddodd nhw'u potensial efallai ond a gyfrannodd gymaint i fywyd ein cenedl.

Rhian Huws

Annwyl Ddarllenwyr,

Oes gennych chi eneth wych neu ferch fedrus rhwng 5 a 9 oed yn eich teulu chi?

A hoffech chi weld ei henw wedi ei argraffu mewn print ar du fewn clawr llyfr?

Mae *Genod Gwych a Merched Medrus* yn cael ei gyhoeddi gan y Lolfa ym mis Mai 2019. Bydd hi'n gyfrol gyffrous, llawn dop o ffeithiau rhyfeddol a lluniau lliw, yn olrhain hanes 13 o ferched ysbrydoledig o Gymru, o'r byd cerddoriaeth, llên, hanes, seryddiaeth, gwyddoniaeth, celf, chwaraeon a llawer mwy!

Dyma gyfrol i ysbrydoli ac i addysgu merched bach Cymru heddiw.

I gael enw eich merch fach wych a medrus chi yn y llyfr, anfonwch e-bost at genodgwych@gmail.com cyn 18fed Ebrill 2019 gan nodi enw llawn eich merch. (Nodwch fod y nifer yn gyfyngedig ac felly'r cyntaf i'r felin!)

Mawr ddiolch,

Medi Jones-Jackson

Awdur *Genod Gwych a Merched Medrus*



Mawrth 15 a 22 - March 15 and 22

10:00 - 14:00

Canolfan Siloh, Ystrad Mynach.

Dysgwch mwy am y sgil o angraffu lino o dan arweiniad yr arlunydd Aron Rhys. Bydd angen darparu bwyd eich hunain ar gyfer cinio.

Learn more about lino printing under the guidance of artist Aron Rhys. You will need to provide your own lunch.

Rhaid bwcio cyn Mawrth 8. You must book by March 8.



£30

**am y cwrs
for the course**

CAFFI CLONC

Dewch am banded a sgwrs yn y Gymraeg yng nghaffi'r Ystafell Fyw. Bydd plant yr ysgol Gymraeg Gilfach Fargoed yn eich gweini ac yn cynnal sesiynnau trafod.

Dydd Gwener 10:00 - 12:00

Caffi Yr Ystafell Fyw

(wrth y Ganolfan Iechyd Rhosyn Gwyn,
Tredegar Newydd)

Dyddiadau tymor yma:

Mawrth 22 + Ebrill 5



Clwb Darllen Dysgwyr Caerffili

Dydd Gwener
8^{fed} o Fawrth

**“Arwyr Cymru”
gan Jon Gower**

2 o'r gloch yn Llyfrgell Caerffili

Cofiwch hefyd am:

Y bore coffi ym Medwas, Caffi'r Graig
bob dydd Llun o 10.30 ymlaen
A'r bore coffi yn y Malcolm Uphill
(Wetherspoons), Caerffili
bob dydd Mawrth o 10 o'r gloch ymlaen

Cyswllt: penneyje961@gmail.com

Croeso mawr i bawb

Clwb Darllen Cwmni

Llawr Cyntaf
Llyfrgell Newydd
Caerffili

2:00 o'r gloch

Mawrth 4ydd – Sgythia
gan Gwyn ap Gwilym

Ebrill 1af - Cysgodion Gwag
gan Ioan Kidd

penneyje961@gmail.com

Croeso Cynnes i Bawb

Merched y WawrCwm Rhymini



Nos Fercher, 20^{fed} o Fawrth

Cyrraedd 7:00/Bwyta 7.30

Cinio Dathlu 10 mlynedd y Gangen

Manor Parc, Thornhill
Pryd 2 neu 3 cwrs

Dewis o'r fwydlen a'r arian i fewn erbyn 1af Mawrth.

Gwesteion Gwadd ac Arddangosfa Luniau

Os hoffech fel aelodau, cyn aelodau, dysgwyr a ffrindiau, ymuno â ni ar y noson, cysylltwch â

Gaynor Williams ☎ 01443 814079
gaynorw555@gmail.com

Croeso Cynnes

Clwb Cerdd Cwm Rhymini

Ysgol Lewis,
Ystrad Mynach

Beethoven yng Nghymru

Mary Hofman, fiolin
David Ormrod, piano

23^{ain} o Fawrth
2:30

£8 (£7.50 i bensiynwyr)
Lluniaeth Ysgafn

Festri Tonyfelin, Caerffili

Llenyddia

Llenyddiaeth Drama Eisteddfod
eleni:

**Yr Athro E. Wyn
James**

Nos Iau, 14^{eg} o Fawrth
7:00 tan 9:00

Croeso Cynnes i Bawb

Grŵp Ukulele

Sesiynau pob Nos
Fawrth

Clwb Rygbi Penallta
6.00 – 8.00

£5 y sesiwn
07745927308

Hanes Cwm Ni

7/3/19 Rob Evans

Smyglwyr Cymru

2/5/19 Richard Gammon

Streic Cyfuniad y Cambrian a
Therfysgoedd Tonypandy
1910-1911

6/3/19

i'w cadarnhau



Clwb Rygbi Penallta

Ystrad Mynach CF82 7EP

7:00yh


Am ragor o fanylion:

helen.young@coleggwent.ac.uk

01495 333702

Eisiau dysgu mwy am
hanes Cymru? Dewch i
wrando. Croeso i bawb.

Addas ar gyfer siaradwyr
CANOLRADD / UWCH /
HYFEDREDD / RHUGL





Pam Adnoddau Staffio?

Sefydlwyd Adnoddau Staffio yn benodol i weithio o fewn y sector drwyddedig a diwydiannol gan ddarparu staff ar gyfer cwmnïau Bwyd, Diod a Diwydiannol.

Mae gennym staff profiadol ac ymroddedig. Mae hyn yn ein galluogi i ganolbwyntio yn benodol ar eich sector chi. Gyda gwybodaeth eang o reoliadau'r sector, mae ein polisi and gweithdrefniadau wedi'u llunio i'ch cefnogi, fel client.

Deallwn fod gennym gyfrifoldeb corfforaethol a chymdeithasol i warchod ein gweithwyr ac mae gennym bolisiau penodol yn eu lle i osgoi masnachu mewn pobol a chaethwasiaeth fodern - problem o fewn y diwydiant.

Cyfarwyddwr Reolwr: **Steven John Skivens**

steves@resourcestaffing.co.uk

Adnoddau Staffio Cyf. www.resourcestaffing.co.uk



Cwrw da Cymraeg a Gwasanaeth Cymraeg

Uned B27 Ystad Ddiwydiannol Trefforest CF375YB



Ar agor pob dydd Gwener 09:00 – 17:00.

Y Bar ar agor Dydd Gwyl Dewis (12:00- 01:00 a Dydd Sadwrn
2ail o Fawrth (02:00-01:00)

#Lolffest 6 ar Ebrill 62 a'r 7fed (12:00 – 01:00)

www.twtlol.com

Fab Fabrics

@FabFabrics

Fab Fabrics, Ystrad Mynach

Tel. 07964 822865

fabfabrics99@gmail.com



JansanWear

Uned G, Ystad Ddiwydiannol
Bowen, Aberbargoed, CF819EP

PFSS

"Yn gweithio i leihau neu ddileu risg"

ASESIAD RISG –

YDYCH CHI WEDI GWNEUD UN?

Am nodi pris heb rwymedigaeth gan Asesydd Tân
cymwys. Cysylltwch â ni:

029 20 888798 07812 636655

PFSS@hotmail.co.uk



- * Cynllunio a Rheoli Cymunedau Busnes
- * Cyngor arbenigol a chymwys
- * Offer tân ac achub
- * Hyfforddiant ymarferol a damcaniaethol
- * Cyngor ac Ymgynghoriad
- * Cynlluniau, gweithdrefnau a pholisïau
- * Asesiad ac archwiliad risg
- * Addasu adeiladau
- * Ardaloedd arbenigol
- * Systemau nyrsiai ar alwad
- * Larwm tân a goleuadau brys
- * Gosod a gwasanaethu offer
- * Profion trydanol

Rhan o arddangosfa
'Prosiect Creadigol'
Ysgol y Castell



Diolch i'r ysgol am rannu eu gwaith gyda "Cwmni"